

BRACKEN

Pteridium aquilinum

NATIVE RANGE

Native to the United Kingdom.

CURRENT HABITAT

Widespread throughout the UK.

SPECIES DESCRIPTION

Bracken is a herbaceous perennial plant reaching approx 2 metres in height. The fronds are produced from an underground rhizome and the main stem is up to 1 cm diameter at the base. The rhizomes can in some soils extend to a depth of more than 1 metre. Bracken can spread from rhizome movement or spore development, once established its spread can be rapid and effect both biodiversity and agricultural production.



IDENTIFICATION FEATURES

FRONDS

Green in summer reaching full development in early July before turning brown in autumn with the onset of senescence.



FLOWERS

Bracken does not produce flowers.

SEEDS

Bracken does not produce seed as such and is spread from spores produced on the end of fronds.



A GUIDE TO IDENTIFYING, LOCATING AND CONTROLLING BRACKEN

Day of the bracken!



CONTROLS

MECHANICAL CONTROL

Cutting - Can be completed twice in each season. First cut in mid-June (mid-July if ground-nesting birds may be present) when the bracken is 50-75 cm high and again six weeks later. This twice yearly cutting may be required for at least 3 seasons. An alternative is a single cut in late July. Cutting must continue until no new bracken growth is apparent. Complete eradication is unlikely to be achieved by cutting alone.

Crushing or bruising - Is usually best carried out repeatedly on young fronds that are brittle and easily snapped. All Terrain Vehicles (ATV) can be used to treat areas where a larger machine cannot go such as amongst gorse or under trees. Repeat the treatment for at least 3 years. Complete eradication is unlikely to be achieved by crushing or bruising alone.

CHEMICAL CONTROL

Two herbicides are recommended for bracken control: asulam (Asulox) and Glyphosate (Roundup, Glyphos etc etc) Asulam is selective herbicide and has little effect on underlying vegetation. Glyphosate is not selective and will kill any underlying vegetation. Both herbicides should be applied after full frond expansion, but before the onset of senescence. This ensures maximum absorption and translocation into belowground rhizomes. 90% control in one season is achievable.

Glyphosate produces visible symptoms soon after application allowing treatment of missed strips in the same season. Eradication requires annual spot treatment.

If herbicides are to be used on or near a watercourse then prior approval will need to be sought from the Environment Agency.

LEGISLATION

Bracken is not subject to any legislation however permission to control on sites with nature conservation status may need to be sought.

CONTACT

Caerphilly County Borough Council
Tel: 01495 272670 / 07766824603
www.caerphilly.gov.uk

Blaenau Gwent County Borough Council
Tel: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

Merthyr Tydfil County Borough Council
Tel: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

Rhondda Cynon Taff County Borough Council
Tel: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

Torfaen County Borough Council
Tel: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk



CYNEFIN BRODOROL

Planhigyn brodorol yn y Deyrnas Unedig.

CYNEFIN PRESENNOL

I'w gael yn eang drwy'r DU.

DISGRIFIAD O'R RHYWOGAETH

Planhigyn parhaol yw rhedyn sy'n tyfu i uchder o oddeutu 2 fetr. Caiff y dail eu cynhyrchu o risom tanddaearol ac mae diamedr y prif goesyn hyd at 1cm o led wrth y bôn. Gall y rhisomau mewn rhai priddoedd ymestyn i fwy na metr o ddyfnder. Gall rhedyn ymledu drwy symudiad rhisomau neu ddatblygiad sborau. Wedi iddo ymsefydlu, gall ymledu'n gyflym gan effeithio ar fioamrywiaeth yn ogystal â chynhyrchiant amaethyddol.

**NODWEDDION ADNABOD****DAIL**

Gwyrdd yn yr haf gan ddatblygu'n llawn erbyn dechrau Gorffennaf, cyn troi'n frown yn yr hydref wrth iddynt ddechrau gwywo.

**BLODAU**

Nid yw rhedyn yn cynhyrchu blodau.

HADAU

Nid yw rhedyn yn cynhyrchu hadau fel y cyfryw, ac mae'n defnyddio sborau a gynhyrchir ar flaenau'r dail er mwyn ymledu.



ARWEINIAD
I ADNABOD,
CANFOD
A
RHEOLI
RHEDYN

Dydd y rhedyn!

**RHEOLAETH****RHEOLAETH FECANYDDOL**

Torri - Gellir torri ddwywaith ym mhob tymor – torri'n gyntaf yng nghanol mis Mehefin (canol mis Gorffennaf os gallai adar sy'n nythu ar y ddaear fod yn bresennol) pan fydd y rhedyn 50-75cm o uchder, ac unwaith eto chwe wythnos yn ddiweddarach. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud y toriadau hyn ddwywaith y flwyddyn am 3 thymor o leiaf. Dewis arall yw torri unwaith yn hwyr ym mis Gorffennaf. Rhaid parhau i dorri hyd nes na fydd unrhyw dyfiant rhedyn i'w weld. Mae'n annhebygol y ceir gwared â'r planhigyn drwy ei dorri yn unig.

Mathru neu gleisio - Mae'n well gwneud hyn droeon ar ddail ifanc sy'n frau ac yn hawdd eu malu. Gellir defnyddio Cerbydau Pob Tir (ATV) i drin llecynnau sydd y tu hwnt i gyrraedd peiriant mwy, fel ymysg yr eithin neu o dan y coed. Dylid ailadrodd y driniaeth am 3 blynedd o leiaf.

Mae'n annhebygol y ceir gwared â'r planhigyn yn llwyr drwy ei falu neu ei gleisio yn unig.

RHEOLAETH GEMEGOL

Argymhellir dau chwynladdwr i reoli rhedyn: asulam (Asulox) a glyffosad (Roundup, Glyfos ac ati). Chwynladdwr detholus yw asulam, ac ychydig o effaith a gaiff ar lystyfiant gwaelodol. Nid yw glyffosad yn detholus, a bydd yn lladd unrhyw lystyfiant gwaelodol. Dylid taenu'r naill chwynladdwr a'r llall wedi i'r dail ehangu'n llawn, cyn iddynt ddechrau gwywo. Drwy wneud hyn, sicrhair y caiff cymaint ag sy'n bosibl o'r chwynladdwr ei amsugno a'i drawlesoli i risomau o dan y ddaear. Mae 90% o reolaeth yn bosibl mewn un tymor. Mae glyffosad yn cynhyrchu symptomau gweladwy'n fuan wedi iddo gael ei daenu, gan olygu bod modd trin lleiniau a fethwyd yn yr un tymor. Er mwyn cael gwared arno'n llwyr mae angen triniaeth sbot blynyddol. Os bwriedir defnyddio chwynladdwr ar, neu wrth ymyl cwrs dŵr, bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

DEDDFWRIAETH

Nid yw rhedyn wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth, ond efallai y bydd angen gofyn am ganiatâd i'w reoli ar safleoedd a chanddynt statws cadwraeth natur.

MANYLION CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ffôn: 01495 272670 / 07766824603
www.caerffili.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Ffôn: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ffôn: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ffôn: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Ffôn: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk